

Teitl y papur:	Blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd a'i Ffyrdd o Weithio
Diben y papur:	I gytuno ar y canlynol: • blaenoriaethau'r tasglu • y trefniadau llywodraethu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau • y cylch gorchwyl diwygiedig
Camau sydd eu hangen:	Gofynnir i'r Tasglu wneud y canlynol: • adolygu blaenoriaethau arfaethedig y tasglu (paragraff 2) • ystyried y trefniadau llywodraethu arfaethedig (o baragraff 4) • ystyried y cylch gorchwyl diwygiedig (atodiad b) Gwahoddir sylwadau yn y cyfarfod.
Papur a baratowyd gan:	Lisa Rimmer, Uwch-reolwr y Rhaglen, Tîm Tasglu'r Cymoedd

Cefndir

1. Y ffrydiau gwaith ac arweinwyr y ffrydiau gwaith presennol, fel y'u cyhoeddwyd yn Fersiwn 1 o *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*: Cynllun Cyflawni (Tachwedd 2017) yw:

- **Twf busnes a dechrau busnes** – Andrew Diplock, entrepreneur, cynghorydd busnes a Buddsoddwr Angel
- **Cyflogadwyedd** – Fiona Jones, cyfarwyddwr gwasanaethau gwaith Cymru a thîm cyflogwyr a phartneriaeth cenedlaethol, yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- **Economi Sylfaenol** – Martin Mansfield, ysgrifennydd cyffredinol, TUC Cymru
- **Canolfannau Strategol** – John Howells, Cyfarwyddwr yr Adran Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
- **Canolfannau Cymunedol** – Andrew Morgan, arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
- **Parc Tirwedd y Cymoedd** – Jocelyn Davies, cyn-Ddirprwy Weinidog Tai ac Adfywio Plaid Cymru
- **Digidol** – Ann Beynon, cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Blaenoriaethau Newydd


2. O ystyried y trafodaethau y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u cael ag arweinwyr awdurdodau lleol cynigiwyd y dylid ystyried y canlynol fel blaenoriaethau'r tasglu yn y dyfodol:

- **Cwmnïau Gwreiddiedig ac Economi Sylfaenol**
 - *Gan gynnwys twf busnes a dechrau busnes, entrepreneuriaeth*
- **Trafnidiaeth**
- **Tai**
 - *Gan gynnwys model Eiddo Gwag RCT*
- **Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd**
 - *Gan gynnwys Alumni*
- **Parc Rhanbarthol y Cymoedd**
- **Canolfannau Strategol**
 - *Gan gynnwys yr A465 a materion digidol*

3. Nodi meysydd blaenoriaethol yn y fath fodd ag a fydd yn galluogi tîm tasglu'r Cymoedd ac aelodau'r tasglu i lywio'r gweithgareddau hyn a dylanwadu arnynt gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd yn ystod y ddwy flynedd olaf hyn o'r rhaglen ac am flynyddoedd i ddod wedi hynny.

Llywodraethu

4. Cynigiwyd y dylid penodi aelod o'r tasglu i 'arwain' pob un o'r blaenoriaethau. Er mwyn sicrhau trosolwg parhaus o bob gweithgaredd, disgwylir y bydd arweinwyr y blaenoriaethau'n parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau eraill o'r tasglu am y cynnydd a wneir yn y cyfarfodydd a drwy Dîm Tasglu'r Cymoedd rhwng cyfarfodydd, fel y bo'n briodol.
5. Bydd cyfarfodydd y tasglu'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn.
6. Trefnir i is-grwpiau weithredu ar flaenoriaethau, a chaiff eu hallbynnau eu hadrodd yn ôl yng nghyfarfodydd y tasglu.
7. Er mwyn parhau i ddarparu'r hyn y dywedwyd wrthym sydd ei eisiau a'i angen ar bobl y Cymoedd, bydd pob cam gweithredu arall yn parhau i fod yn destun gwaith adrodd a monitro drwy fwrdd rhaglen Tasglu'r Cymoedd. Caiff adroddiadau ar weithgareddau pob cam gweithredu arall yn *Ein Cymoedd*, *Ein Dyfodol* eu darparu i'r tasglu hefyd ar adegau cerrig milltir allweddol o fewn y flwyddyn adrodd.
8. Caiff unrhyw faterion a risgiau eu rheoli a'u cyfeirio at y Dirprwy Weinidog os yw'n briodol.
9. Caiff trefniadau llywodraethu ar gyfer rhaglen Tasglu'r Cymoedd eu crynhoi ar ffurf diagram yn Atodiad A.
10. Ar ôl cytuno ar y blaenoriaethau, cynhelir adolygiad o'r aelodaeth bresennol er mwyn sicrhau bod y tasglu'n parhau i gyflawni ei gylch gwaith.
11. Gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl diwygiedig yn Atodiad B. Mae'r rhain yn seiliedig ar y fersiwn wreiddiol, y cytunwyd arni ym mis Tachwedd 2016, a'r papur trafod ar y cylch gwaith, y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2017. Cânt eu diweddarau unwaith y cytunir ar flaenoriaethau ac yr adolygir yr aelodaeth.



**Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd
Cylch Gorchwyl
Diwygiwyd – Mai 2019¹**

1. Diben

1.1 Mae'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd wedi'i sefydlu er mwyn cynghori Llywodraeth Cymru ar ddull newydd o fuddsoddi yn nyfodol y cymoedd. Bydd y dull hwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn eu grymuso, yn datblygu eu hasedau ac yn adfer ymdeimlad o obaith ac uchelgais.

2. Cyd-destun

2.1 Mae gan Gymoedd y De hanes diwydiannol balch a chryf. Fodd bynnag, cafodd hyn ei ddinistrio wrth i'r pyllau glo gael eu cau, ac mae effaith hynny yn dal i gael ei theimlo heddiw. Gwnaed buddsoddiad sylweddol yn y Cymoedd. Cynigiodd rhaglen Blaenau'r Cymoedd arweinyddiaeth a chyd-drefniant effeithiol i ran o'r ardal hon. Roedd Ardal Adfywio Strategol Cymoedd y Gorllewin yn cyd-fynd â hyn. Mae angen i ddull newydd o ymdrin â'r Cymoedd fod yn ehangach ac yn fwy hyblyg.

2.2 Prif ffocws y tasglu fydd ennyn diddordeb a chynnwys y bobl sy'n byw yn y cymoedd, busnesau presennol, llywodraeth leol, y trydydd sector a sefydliadau dinesig wrth ddatblygu dull cydgysylltiedig o hyrwyddo'r rhanbarth ar gyfer buddsoddiad, cydgysylltu'r buddsoddiad presennol yn well, a mynd i'r afael â materion megis trafnidiaeth, cysylltedd, tai ac amddifadedd cymdeithasol.

3. Cylch Gorchwyl

3.1 Bydd y tasglu yn cynghori ar y camau cydweithredol sydd eu hangen er mwyn datblygu dull integredig o wneud y canlynol:

- ennyn diddordeb cymunedau lleol a'u grymuso;
- hybu datblygiad economaidd ac adfywio;
- hyrwyddo effeithlonrwydd a chystadleurwydd busnesau;
- hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy;
- gwella'r broses o ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth;
- gwella effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus;
- cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy.

3.2 Bydd y tasglu yn gweithio drwy gydol cyfnod y Llywodraeth hon, gan gydnabod bod angen dull gweithredu hirdymor.

¹ Mae'r fersiwn ddiwygiedig hon o'r cylch gorchwyl yn seiliedig ar y fersiwn wreiddiol, y cytunwyd arni ym mis Tachwedd 2016, a'r papur trafod ar y cylch gwaith, y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2017. Mae hefyd wedi'i ddiweddarau er mwyn cynnwys newidiadau i aelodau'r tasglu ac adlewyrchu newidiadau i'r blaenoriaethau.

- 3.3 Gan weithio gyda'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd y De, mae'r tasglu yn allweddol wrth lywio gwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth newid a phennu polisi'r llywodraeth mewn perthynas â'r Cymoedd. Er bod y tasglu yn cynnwys arbenigwyr annibynnol, nid yw'n sefydliad annibynnol, ar wahân i Lywodraeth Cymru.
- 3.4 Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i'r tasglu gyfuno holl adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid niferus i gefnogi'r Cymoedd. Bydd angen i nifer fawr o sefydliadau'r sector cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig; y GIG; ysgolion a phrifysgolion – partneriaid yn y trydydd sector a busnesau preifat gydweithio er mwyn cyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*. Rhoddir pwyslais ar swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i wneud y swyddi hynny, gwasanaethau cyhoeddus gwell a'm cymuned leol.
- 3.5 Bydd aelodau'r tasglu yn goruchwyllo ac yn herio'r broses barhaus o gyflawni yn unol â'r cynllun. Sefydlwyd gweithgorau er mwyn ystyried meysydd penodol o'r cynllun ac mae aelod o'r tasglu yn arwain/cadeirio pob un ohonynt. Cafodd y gweithgorau a'r arweinwyr hyn eu hadolygu yn ddiweddar (Mai 2019).

Dyma'r ffrydiau gwaith a'u harweinwyr, a bennwyd ym mis Mehefin 2019:

[Diweddarau unwaith iddynt gael eu trafod yng nghyfarfod 5 Mehefin]

4. Cymorth

- 4.1 Mae Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De yn cael cymorth gan Fwrdd Tasglu'r Cymoedd. Pwrpas y Bwrdd yw:
- rhoi cyngor ac argymhellion clir, realistig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De er mwyn helpu i wireddu'r uchelgais a'r weledigaeth a nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol";
 - arwain a chymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r camau gweithredu a'r gweithgareddau allweddol a nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol".
- 4.2 Gellir sefydlu is-grwpiau er mwyn datblygu darnau penodol o waith. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd.

5. Amseru

- 5.1 Bydd y tasglu yn cyfarfod bob chwarter, neu'n amlach o bosibl ar adegau cerrig milltir allweddol, fel y bo'n briodol.

6. Aelodaeth

Y wybodaeth ddiweddaraf ar ôl cytuno ar flaenoriaethau

Gofynnir am gyfraniadau ychwanegol gan arbenigwyr perthnasol yn ôl yr angen.

7. Ysgrifenyddiaeth

7.1 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Tasglu.

7.2 Cyhoeddir cofnodion cryno ar wefan Llywodraeth Cymru yn dilyn pob cyfarfod, a bydd yr holl bapurau ar gael ar gais.